

Her Ddylunio Opera Cenedlaethol Cymru 2018-19

Pecyn gwybodaeth i diwtoriaid

Mynegai

- Tudalen 2** Beth yw'r Her Ddylunio?
Ar gyfer pwy?
Pryd mae'n digwydd?
Pwy yw'r beirniaid?
Beth sydd angen i mi ei wneud?
- Tudalen 3** Pa gefnogaeth fydd i mi?
Beth fydd yr enillydd yn ei gael?
Sut ydw i'n cymryd rhan?
Pryd mae'r dyddiadau cau?
- Tudalen 4** Y Briff
Blychau Set Enghreifftiol
- Tudalen 6** Crynodeb o'r Opera
Gweledigaeth Cyfarwyddwr ar gyfer *Rigoletto*
- Tudalen 7** Cefndir Opera Cenedlaethol Cymru
- Tudalen 8** Meini Prawf Beirniadu
- Tudalen 9** Telerau ac Amodau

Beth yw'r Her Ddylunio?

Mae Her Ddylunio Opera Cenedlaethol Cymru yn gyfle i fyfyrwyr yng ngholegau a phrifysgolion yr Academi Sgiliau Cenedlaethol roi eu sgiliau a'u creadigrwydd ar waith mewn tasg dylunio set a osodir gan weithwyr proffesiynol yn y diwydiant sy'n gweithio i Opera Cenedlaethol Cymru.

Ar gyfer pwy?

Mae'r Her Ddylunio ar gyfer myfyrwyr mewn sefydliadau addysg sy'n aelodau o'r Academi Sgiliau Genedlaethol ar gyfer Sgiliau Creadigol a Diwylliannol a neb arall. Gall ymgeiswyr fod o unrhyw ddisgyblaeth pwnc ac nid oes angen unrhyw wybodaeth na phrofiad blaenorol o ddylunio set na'r theatr arnynt. Yr unig beth sydd angen ei wneud yw dilyn y briff a chreu ymateb.

Pryd mae'n digwydd?

Yn dilyn adborth gan golegau yn y blynyddoedd blaenorol, bydd yr her bellach yn cael ei chynnal yn ystod tymor y Pasg. Mae dwy gam i'r her.

Cam 1: Dyluniad 2D - i'w gyflwyno erbyn 8^{fed} Ebrill.

Cam 2: Ymgeiswyr ar y rhestr fer i'w cyhoeddi erbyn dydd Llun 15^{fed} Ebrill - a bydd gofyn wedyn iddyn nhw gyflwyno blwch model 3D o'u dyluniad erbyn 28^{ain} Mehefin 2019.

Pwy yw'r beirniaid?

Bydd cynigion ar yr her yn cael eu beirniadu gan weithwyr proffesiynol o Opera Cenedlaethol Cymru, gan gynnwys aelodau o'r timau technegol a chreadigol.

Beth sydd angen i mi ei wneud?

Gwahoddir tiwtoriaid o unrhyw faes pwnc i weithio gyda'u myfyrwyr ar yr her hon. Gallai hyn fod o fewn y cwricwlwm, neu'n allgyrsiol. Mae'r pecyn tiwtor hwn yn cynnwys briff i'r myfyrwyr ei ddilyn. Mae'r briff yn amlinellu'r broses dau gam ar gyfer yr her (creu mewn 2D a 3D), yn rhoi crynodeb byr o opera eleni yn ogystal â Gweledigaethau'r Cyfarwyddwr er mwyn ysbrydoli'r ymatebion creadigol.

Bydd cynigion yng ngham un yn cael eu croesawu ar bapur neu'n ddigidol, ond dylent fod yn 2D (h.y. nid set 3D wedi'i hadeiladu). Gall y rhain fod mor greadigol ag y mae'r myfyriwr yn dymuno iddynt fod, gan fod WNO yn chwilio am syniadau a dyluniadau newydd a gwreiddioldeb. Nid ydym yn disgwyl bod gan bob coleg gyrsiau dylunio set penodol, felly rydym yn annog unrhyw ddisgyblaeth i gymryd rhan megis dylunio graffig, theatr dechnegol, darlunio ac ati.

Gellir cyflwyno ceisiadau yn electronig neu drwy'r post erbyn 8^{fed} Ebrill 2019 i Opera Cenedlaethol Cymru. Cynhelir proses feirniadu cam un, ac yna bydd **tri unigolyn** yn cael eu gwahodd i greu eu dyluniad yn un o flychau set enghreifftiol WNO a fydd yn cael ei anfon at y coleg. Bydd y tri blwch set yn cael eu beirniadu a chyhoeddir yr enillydd erbyn 5 Gorffennaf 2019 (i'w gadarnhau)

Pa gefnogaeth fydd i mi?

Yn ychwanegol at y pecyn tiwtor hwn, mae ffilm ar wefan WNO <https://www.youtube.com/watch?v=aQXIINztnTM> Bydd nifer o weminarau ar adegau gwahanol yn ystod y broses i gefnogi tiwtoriaid gyda strwythur eu gwaith, ac i ateb unrhyw gwestiynau sydd gan diwtoriaid. Bydd y rhain yn cael eu cynnal trwy gyswllt fideo a bydd y ddolen yn cael ei rhannu ymlaen llaw. Mae dyddiadau'r gweminarau hyn i'w cadarnhau gyda'r colegau fydd yn cymryd rhan ond yr amserlen fras yw:

Gweminar 1: Cysyniad - Diwedd mis Ionawr

Gweminar 2: Dylunio - mis Chwefror

Gweminar 3: Unrhyw gwestiynau? - mis Mawrth

Gweminar 4: Adeiladu blwch set - Diwedd mis Ebrill - Noder: ar gyfer ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer ar gyfer cam 2 yn unig

Beth fydd yr enillydd yn ei gael?

Gan ein bod yn gwybod y bydd y myfyrwyr yn dod o nifer o ddisgyblaethau gwahanol, hoffem deilwra'r wobr ar gyfer yr unigolyn sy'n ennill. Hoffem wahodd yr enillydd i gyfarfod â gweithwyr proffesiynol y diwydiant yn y maes sydd o ddiddordeb. Bydd yr enillydd yn cael tlws bychan hefyd yn ogystal ag argymhelliad ysgrifendig o'u sgiliau gan WNO.

Sut ydw i'n cymryd rhan?

I gofrestru'ch diddordeb a derbyn y newyddion diweddaraf, e-bostiwch sarah.hughes@ccskills.org.uk

Pryd mae'r dyddiadau cau?

CYFLWYNO DYLUNIAD 2D: 8 Ebrill 2019

CYHOEDDI PA YMGEISWYR SYDD AR Y RHESTR FER: 15 Ebrill 2019

CYFLWYNO BLWCH MODEL 3D: 28 Mehefin 2019

CYHOEDDI'R ENILLYDD: 5 Gorffennaf 2019

Y Briff

Gofynnir i fyfyrwyr ddylunio set ar gyfer yr opera boblogaidd *Rigoletto*.

Dylai'r dyluniad fod yn 2-ddimensiwn (ar bapur neu'n ddigidol), a dylai ganolbwyntio ar ymateb gwreiddiol, creadigol i'r crynodeb ac i Weledigaethau'r Cyfarwyddwr (isod).

Nid oes angen i ymgeiswyr gael unrhyw brofiad o opera na dylunio setiau, ond rhaid iddyn nhw fod yn barod i greu dyluniad y gellid ei raddio i fyny i flwch set (dimensiynau: 1:25)

Hoffem weld bod y meysydd canlynol wedi'u hystyried:



- Pa ddeunyddiau fyddai'n cael eu defnyddio i adeiladu'r set (e.e. pren, metel, brethyn)
- Os bydd unrhyw rannau o'r set yn symudol, sut byddan nhw'n symud?
- Ble dylid gosod y goleuadau er mwyn hoelio sylw ar agweddau allweddol yn y dyluniad?
- Sut gellid adeiladu'r set a'i thynnu i lawr os yw'n fawr?
- Ystyriaeth o addasiadau maint set i ffitio i mewn i leoliadau teithio llai o faint.

Nid oes ateb cywir, nac anghywir i'r briff. Mae gennym ddiddordeb mewn gweld ymatebion creadigol gan bob ymgeisydd.

Blychau Set Enghreifftiol

Dyma rai enghreifftiau o ddyluniadau a blychau set sydd wedi'u creu gan weithwyr proffesiynol. Dim ond er mwyn rhoi syniad o'r hyn yr ydym yn chwilio amdano y dangosir y rhain; rydym yn deall na fyddwn yn debygol o weld cymaint o fanylder yn y dyluniadau.





Crynodeb o'r Opera

Trosolwg byr.

Mae Rigoletto, sy'n gellweiriwr yn llys Dug Manuta, yn cefnogi ei feistr wrth iddo hudo un fenyw ar ôl y llall i'w lys. Mae gan Rigoletto ferch o'r enw Gilda ac mae'n ei chadw hi ynghudd, yn ddiarwybod i wŷr y llys, sy'n amau bod ganddo gariad y mae'n ei chuddio. Wedi i'r Dug gymryd mantais ar ei ferch, mae Monterone yn melltithio Rigoletto. Mae Sparafucile, sy'n asasin, yn cynnig ei wasanaeth i Rigoletto. Mae Rigoletto yn dychwelyd adref at Gilda, ond aiff allan eto, gan adael Gilda, ac mae'r Dug, wedi'i wisgo fel myfyriwr tlawd, yn dod i gadw oed gyda hi. Wedi i'r 'myfyriwr' fynd, mae gwŷr y llys yn cipio Gilda, gan fwriadu ei chyflwyno i'w meistr. Mae Rigoletto yn chwilio'r llys am ei ferch, ond mae'r Dug eisoes wedi mynd â hi i'r gwely. Mae Rigoletto yn tyngu y bydd yn dial, ac mae'n talu Sparafucile i lofruddio'r Dug. Mae'r Dug yn cyrraedd cwt Sparafucile, wedi'i ddenu yno gan ei chwaer, Maddalena. Mae Gilda a Rigoletto yn gwylio drwy'r waliau. Daw Gilda i wybod beth mae ei thad yn bwriadu ei wneud, ac mae'n dychwelyd mewn cuddwisg i gynnig ei hun i gael ei lladd gan Sparafucile. Mae Rigoletto yn casglu'r sach sy'n cynnwys y corff, ac yn darganfod - yn rhy hwyr - mai ei ferch ei hun sydd ynddo'n marw.

Gweledigaeth Cyfarwyddwr ar gyfer OPERA *Rigoletto*

1) Yn act gyntaf yr opera, mae Rigoletto yn gwatwar tad un o'r merched y mae'r Dug wedi cymryd mantais ohonynt ac am hynny, caiff ei felltithio gan y tad. Mewn llythyr at ei libretydd, Piave, mynnodd Verdi "bod holl hanfod (yr opera) yn y felltith honno". Ymdrechion Rigoletto i ddianc rhag y felltith sy'n cynnal y stori.

Ewch ati i greu dyluniad sy'n dangos byd lle mae rôl ffawd yn gwneud synnwyr. Mae'n annhebygol o fod yn lleoliad modern, gan ein bod yn byw bywydau mwyfwy seciwlar heddiw, ond gallai fod, neu efallai y bydd yn lleoliad dychmygol, yn portreadu cymdeithas y gallwn ddyfeisio'i rheolau a'i disgwyliadau cymdeithasol.

2) Mae byd Rigoletto yn dywyll a pheryglus. Mae ei ymddygiad yn gïaidd, a'i bennaeth ar y llaw arall yn garismataidd ac yn oriog. Rwy'n gweld y Dug fel rhyw bendefig ar fyd troseddol tanddaearol a phawb o'i gwmpas yn ymorol drosto'i hunan. Mae Rigoletto yn ceisio cadw ei ferch ar wahân i'r byd hwnnw er mwyn ei diogelu ac mae'n credu mai dim ond yn y lloches honno y maent yn ddiogel.

Mae dau brif leoliad yn yr act gyntaf, y "llys" a chartref Gilda. Hoffwn gael dyluniad lle mae modd symud yn llyfn o'r naill i'r llall (h.y. dim newid mawr i'r

olygfa) ac fe hoffwn iddo adlewyrchu sut mae Rigoletto'n teimlo yn y ddau amgylchedd gwahanol.

3) Fe allwn, ac fe ddylem, ddysgu gwersi o'r gorffennol, a gall y theatr ein helpu i wneud hynny. Mae Rigoletto yn chwedl amwys ynghylch moesoldeb, neu ddiffyg moesoldeb ac mae camddefnyddio grym yn ganolog iddi (nid grym amlwg y Dug yn unig, ond hefyd rym Rigoletto i anafu'r rhai llai ffodus â'i eiriau).

Ewch ati i greu lleoliad lle gall y gynulleidfa weld tebygrwydd rhwng byd y maent yn ei adnabod a byd y stori wreiddiol yn y canoloesoedd. Byd o rym absoliwt a all wneud fel y myn heb ystyried hawliau a theimladau pobl eraill.

Atodiad:

Cefndir Opera Cenedlaethol Cymru

Opera Cenedlaethol Cymru yw'r cwmni teithiol mwyaf yn Ewrop. Bob blwyddyn, mae WNO yn llwyfannu dros 120 o berfformiadau o wyth opera prif lwyfan i gyfanswm o tua 150,000 o bobl. Mae'n perfformio'n rheolaidd yng Nghaerdydd (Canolfan Mileniwm Cymru) a Llandudno (Venue Cymru) yng Nghymru, ac ym Mryste (The Bristol Hippodrome), Birmingham (Birmingham Hippodrome), Lerpwl (Liverpool Empire Theatre), Milton Keynes (Milton Keynes Theatre), Rhydychen (New Theatre Oxford), Plymouth (The Lyric, Theatre Royal Plymouth), a Southampton (Mayflower Theatre) yn Lloegr.

Fel rheol, gofynnir i ddylunydd gynhyrchu model set heb fod yn hwyrach na chwe mis cyn noson agoriadol. O'r model hwn, bydd y Rheolwr Cynhyrchu'n gweld a all dyluniad weithio mewn gwirionedd, pa mor ddichonadwy ydyw a pha newidiadau all fod angen eu gwneud ar gyfer yr amrywiol leoliadau y bydd WNO yn ymweld â nhw. Defnyddir y model hefyd i gyflwyno i aelodau eraill y cwmni. Mae angen i'r Adrannau Cyhoeddiadau a Marchnata ei weld fel bod cynnwys rhaglenni a deunydd cyhoeddusrwydd yn cyd-fynd yn gywir â chynhyrchiadau newydd. Bydd cantorion a pherfformwyr hefyd yn ei weld, ar ddiwrnod cyntaf yr ymarferion fel arfer, fel y gallant osod eu hunain, yn artistig, yn y cynhyrchiad.

Atgynhyrchu'r manylion ar gyfer set theatrig o'r blwch model yw'r cam nesaf; yn gyntaf, mae'r model set yn cael ei ddadelfennu a'i gostio. Yna, mae'n rhaid i'r tîm technegol weithio'n agos iawn gydag adeiladwyr, cyflenwyr, adrannau gwneud ac adrannau technegol gan sicrhau bod popeth wedi'i gwblhau yn barod ar gyfer dechrau'r cyfnod ymarfer. Mae cydlynu'r holl elfennau hyn wrth baratoi ar gyfer noson gyntaf yn cymryd misoedd lawer o waith dwys.

Meini Prawf Beirniadu

Bydd y dyluniadau a gyflwynir ar 8 Ebrill yn cael eu beirniadu ar sail eu cysyniad a'r broses ddylunio gychwynnol, a bydd y cynigion a roddir ar y rhestr fer yn mynd ymlaen i gam blwch model.

Wrth feirniadu, caiff y broses ymchwil ac arbrofi dylunio bwysoliad cyfartal ag ymarferoldeb technegol y dyluniad. Bydd pob dyluniad yn cael ei feirniadu mewn tri maes.

- 1 **Proses ddylunio wybodus:** yn dangos ymchwil cysylltiedig i'r ffurf theatrig, testun yr opera, a chyd-destun gweledigaeth y cyfarwyddwr.
- 2 **Dehongliad creadigol:** yn dangos bod y ffurf theatrig wedi cael ei harchwilio a bod arbrofi yn ei sgil, ac yn dangos bod y dyluniad yn berthnasol i gynulleidfa gyfoes.
- 3 **Ymarferoldeb technegol a llwyfannol:** mae trosolwg sylfaenol o ffurf, adeiladwaith a gweithredu wedi cael ei ystyried a'i esbonio.

1 Dyluniad gwybodus

- Dangoswyd taith resymegol rhwng ymchwil, arbrofi a'r dyluniad terfynol.
- Dangoswyd ymchwil sy'n gysylltiedig â gweledigaeth y cyfarwyddwr a ddewiswyd.
- Dangoswyd dealltwriaeth o fformatau dylunio set, ac mae'r dull a ddewiswyd wedi ystyried elfennau dylunio eraill megis goleuo, sain a gwisgoedd.

2 Dehongliad creadigol

- Mae gweledigaeth y Cyfarwyddwr wedi cael ei drosi i'r gofod ar y llwyfan.
- Mae'r broses ddylunio wedi arbrofi gyda phosibiliadau ar gyfer y bwa prosceniwm.
- Tystiolaeth bod dylunio theatr cyfoes wedi'i archwilio.

3 Ymarferoldeb technegol a llwyfannol

- Rhoddwyd ystyriaeth i ffitio'r dyluniad yn y New Theatre, Rhydychen ac yng Nghanolfan Mileniwm Cymru, Caerdydd (lleoliadau lleiaf a mwyaf WNO) a nodir unrhyw benderfyniadau adeiladu cysylltiedig.
- Rhoddwyd ystyriaeth i unrhyw faterion ymarferol ar gyfer yr actorion a chriw'r llwyfan yn ystod perfformiad.

Cyflwyno'r gwaith

Gellir cyflwyno'r dyluniad mewn unrhyw fformat cyn belled â'i fod yn adlewyrchu gweledigaeth a chysyniad y broses yn gywir, ac y cydymffurfir â'r meini prawf isod:

- Hyd at 800 o eiriau neu gyflwyniad fideo 90 eiliad o'r dyluniad. Dylai gyfeirio at eich ymchwil a'r deunyddiau sy'n cael eu cyflwyno, er mwyn helpu i ddangos sut yr ydych wedi ymateb i'r briff ac i weledigaeth y cyfarwyddwr, gan gynnwys:
 - Pam wnaethoch chi ddewis y weledigaeth benodol honno gan y cyfarwyddwr.
 - Nodiadau ar sut y byddai'n cael ei adeiladu, gan gynnwys sicrhau amgylchedd gwaith diogel ar gyfer criwiau technegol a pherfformwyr.
- Amrywiaeth o luniadau proses, o ymchwil ac arbrofi i'r dyluniad terfynol, naill ai mewn copi caled neu'n ddigidol.
- Dylai ymgeiswyr hefyd ddarparu nawswrdd i ddangos teimlad ac arddull y dyluniad cynhyrchu.

Mae angen i bob eitem a anfonir allu ffitio i mewn i amlen A3 neu ar ffon gof. Mae hyn er mwyn caniatáu storio'n hawdd a dychwelyd eitemau.

Anfonwch at y cyfeiriad canlynol:

Stephanie Jenkins
Opera Cenedlaethol Cymru
Canolfan Mileniwm Cymru
Plas Bute
Caerdydd
CF10 5AL

Telerau ac amodau

- 1 Mae'r gystadleuaeth ar agor i aelodau'r Academi Sgiliau Cenedlaethol ar gyfer Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn unig. Rhaid i'r aelodaeth fod yn weithredol trwy gydol cyfnod y prosiect.
- 2 Y dyddiad cau ar gyfer dyluniadau papur / digidol fydd 8 Ebrill 2019.
- 3 Dim ond y cynigion a osodir ar y rhestr fer fydd yn cael eu meithrin trwy gam y blwch model gan Opera Cenedlaethol Cymru ar ôl y dyddiad hwn.

- 4 Bydd pob ymgeisydd ar y rhestr fer yn cyflwyno eu Dyluniad Blwch Model gorffenedig i'r panel beirniadu yng Nghaerdydd ar 28 Mehefin 2019.
- 5 Dim ond cynigion gan unigolion fydd yn cael eu hystyried. Ni ystyrir unrhyw gynigion gan grwpiau.
- 6 Defnyddir unrhyw fanylion cyswllt a ddarperir ar gyfer gweinyddu'r gystadleuaeth yn unig ac ni chânt eu cyhoeddi na'u rhoi i unrhyw drydydd parti heb ganiatâd penodol yr ymgeisydd ymlaen llaw.
- 7 Drwy gyflwyno cynnig ar gyfer y gystadleuaeth hon, mae'r ymgeisydd yn cytuno i Opera Cenedlaethol Cymru gael trwydded unigryw i ddefnyddio cynigion ar gyfer unrhyw gyfryngau at ddibenion gweinyddu, cynnal a hyrwyddo'r gystadleuaeth, gan gynnwys ffrydio ar y rhynggrwyd heb unrhyw gyfyngiad.
- 8 Drwy gyflwyno cynnig ar gyfer y gystadleuaeth, mae'r ymgeisydd yn gwarantu ac yn cynrychioli mai eu gwaith gwreiddiol eu hunain yw'r gwaith ac nad yw'n torri hawlfraint nac unrhyw hawl arall sydd gan unrhyw berson arall.
- 9 Trwy gyflwyno cynnig i'r gystadleuaeth, bydd yr ymgeisydd yn sicrhau bod ffurflen ganiatâd cyfryngau yn cael ei llenwi gan unrhyw fodelau a ddefnyddir yn y cyflwyniad i'r dyluniad.
- 10 Nid yw'r gystadleuaeth yn agored i weithwyr cyflogedig, nac i berthnasau agos gweithwyr cyflogedig, Opera Cenedlaethol Cymru.
- 11 Mae'r penderfyniad ynghylch enillwyr y gystadleuaeth yn derfynol ac yn ôl disgresiwn llwyr panel Opera Cenedlaethol Cymru. Ni fydd unrhyw ohebiaeth.
- 12 Cysylltir â'r enillwyr trwy eu Coleg trwy e-bost, dros y ffôn neu drwy'r post. Os na ellir cysylltu ag enillydd ar ôl gwneud ymdrechion rhesymol, mae Opera Cenedlaethol Cymru yn cadw'r hawl i gynnig y wobr i ymgeisydd arall.
- 13 Nid yw Opera Cenedlaethol Cymru yn gyfrifol am gynigion hwyr na rhai aiff ar goll oherwydd y gwasanaeth post neu unrhyw ddigwyddiad arall y tu hwnt i reolaeth Opera Cenedlaethol Cymru.

- 14 Mae Opera Cenedlaethol Cymru yn cadw'r hawl i ganslo'r gystadleuaeth hon heb rybudd ar unrhyw adeg os tybir bod hynny'n angenrheidiol yn ôl disgresiwn llwyr Opera Cenedlaethol Cymru neu os yw digwyddiadau y tu hwnt i'w reolaeth yn atal gweinyddu'r gystadleuaeth yn iawn.
- 15 Drwy gyflwyno cynnig ar gyfer y gystadleuaeth hon, mae'r enillydd yn nodi eu bod yn cydsynio yn ddiamod â'r telerau a'r amodau hyn ac yn cytuno i fod yn rhwym iddynt.
- 16 Gweinyddir y gystadleuaeth hon gan Opera Cenedlaethol Cymru mewn partneriaeth â'r Academi Sgiliau Cenedlaethol ar gyfer Sgiliau Creadigol a Diwylliannol.